Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG SCHTh 2025-2026

## Cynnwys

1. **Rhagair……………………………………………………………………………3**

2. **Cyflwyniad a Chefndir……………………………………….......…………..5**

3. **Strategaeth y Gymraeg………………………………………………..………5**

4. **Pethau a Gyflawnwyd……………………………………………………....... 8**

5. **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg………………….….............…..………9**

6. **Cyrsiau Cymraeg……………………………….…..………..........…..……… 9**

7. **Gallu Iaith Gymraeg y Staff ……………….………….......…….…..…………10**

8. **Llunio Polisi ……………………………………………….……………..……..10**

9. **Anfodlonrwydd …..………………………………………………..…….…..……..11**

10. **Lefelau'r Gymraeg……………………………......…………………….12**

## 1. Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg, sy'n dangos y cynnydd a gyflawnwyd a'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod 2025/2026.


Drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi parhau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddwn yn darparu ein gwasanaethau. Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n deall ac yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion ein cymunedau, gan gynnwys galluogi unigolion i ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith. Rwyf wedi parhau i oruchwylio buddsoddiad yng ngallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflenwi gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cyflenwi canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r Swyddfa wedi cymryd camau pellach i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymgorffori Safonau'r Gymraeg yn gadarnach ar draws ein gwaith. Ein nod yw adeiladu ar ein rhwymedigaethau yn ogystal â'u bodloni, a symud tuag at ddatblygu gweithlu hyderus sy'n gwbl ddwyieithog.

Rydyn ni hefyd wedi parhau i gefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy roi amser, anogaeth ac amgylchedd cefnogol iddynt i ddysgu a defnyddio'r iaith. Yn ogystal, rwyf wedi cefnogi gweithgarwch recriwtio i gryfhau'r gallu o ran y Gymraeg, gan sicrhau bod y Swyddfa a'r Heddlu'n cynnal presenoldeb amlwg mewn digwyddiadau cenedlaethol allweddol megis Sioe Frenhinol Cymru. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, yr oedd yn dda gennyf benodi siaradwr Cymraeg rhugl yn Brif Gwnstabl hefyd, gan atgyfnerthu cyflenwi gwasanaeth ac arweinyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ymhellach.

Yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029, nodais uchelgais glir i gryfhau ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Mae cyflenwi'r uchelgais hwn yn dibynnu ar sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch a chynhwysol, ac yn cydnabod amrywiaeth ein cymunedau, gan gynnwys eu hanghenion ieithyddol. Fel rhan o hyn, ymrwymais i fuddsoddi yng ngallu'r Heddlu i gyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg. Un enghraifft o hyn yw'r cyllid ychwanegol a roddwyd i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w galluogi i recriwtio mwy o drinwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg.

Y flwyddyn nesaf, byddaf yn parhau i gefnogi Heddlu Dyfed-Powys i gyflenwi ei Strategaeth Iaith, wrth gydweithio ar ddatblygu Strategaeth Iaith newydd, a fydd yn cael ei lansio yn fy Nghynhadledd Gŵyl Ddewi yn 2027.



Dafydd Llywelyn,

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## 2. Cyflwyniad a Chefndir

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 30 Mawrth 2017. Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel ydoedd ar y pryd) hwy yn unol ag adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Maent wedi'u creu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ystod 2025-26, mae SCHTh Dyfed-Powys wedi parhau i hyrwyddo a gwreiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chyda'r cymunedau yr ydym yn eu

gwasanaethu. Mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn cael mynediad at ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, sut rydym yn hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg, a sut mae SCHTh yn gweithio i sicrhau y cedwir at y safonau. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan SCHTh yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 3. Strategaeth y Gymraeg

Yn 2024, lansiwyd strategaeth iaith newydd yn arbennig ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â'r nod o ddatblygu gweithlu sy'n cynrychioli ein cymunedau ymhellach sy'n sicrhau:

- Bod ein cymunedau'n derbyn gwasanaeth Cymraeg pan ofynnir amdano
- Ein bod yn denu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â SCHTh fel staff neu fel gwirfoddolwyr
- Ein bod yn darparu cyfleoedd digonol i'n staff a'n gwirfoddolwyr ddysgu Cymraeg
- Bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol o ran holl bolisïau a gweithdrefnau SCHTh.

Roedd y strategaeth yn cynnwys saith amcan allweddol a gwelir y cynnydd a wnaed gennym yn erbyn yr amcanion hynny yn y tabl canlynol.

| Amcan | Rheswm | Cynnydd |
|---|---|---|
| **1.** Annog staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd i wella eu sgiliau Cymraeg. | Bydd hyn yn cynorthwyo SCHTh yn ei hymdrechion i ddod yn sefydliad dwyieithog. | Fel rhan o'u datblygiad, anogir staff i dderbyn cyfleoedd i wella eu sgiliau Cymraeg. Trefnwyd sesiynau "Clwb Clecs", sy'n rhoi cyfle i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn y flwyddyn nesaf â'r bwriad o loywi'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y sesiynau'n fuddiol i staff, yn ogystal â sicrhau bod rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gymraeg, gan gynyddu'r defnydd o Gymraeg sgyrsiol yn y Swyddfa. |
| **2.** Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gwirfoddoli fel rhan o waith sicrwydd a chraffu SCHTh. | Bydd hyn yn helpu staff yn SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys drwy gael mwy o unigolion sy'n medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae recriwtio gweithredol yn digwydd ar gyfer yr holl gynlluniau gwirfoddoli sy'n cael eu cynnal gan SCHTh. Mae dau wirfoddolwr newydd a ymunodd â'r cynlluniau yn ystod 2025-2026 yn siaradwyr Cymraeg rhugl. |
| **3.** Cynyddu sgiliau Cymraeg gwirfoddolwyr presennol sy'n gwirfoddoli fel rhan o waith sicrwydd a chraffu SCHTh. | Bydd hyn yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n medru defnyddio'r Gymraeg ac yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Cynigiwyd gwersi Cymraeg i staff a gwirfoddolwyr. Er na ddewisodd staff/gwirfoddolwyr i dderbyn gwersi o fewn y flwyddyn adrodd, mae sawl un wedi adrodd am rai gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw i ymarfer sgiliau a magwyd drwy ddysgu blaenorol yn anffurfiol, megis siarad mwy o Gymraeg yn y gwaith gyda chydweithwyr ac ymarfer gyda theulu a ffrindiau. Bydd SCHTh yn parhau i rannu adnoddau a chyfleoedd dysgu gyda staff a gwirfoddolwyr. |
| **4.** Hyrwyddo a monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y swyddfa gyfan yn cydymffurfio. | Bydd hyn yn sicrhau bod SCHTh yn cydymffurfio'n llawn â chyflenwi Safonau'r Gymraeg. | Cynhaliwyd gweithgareddau hunanasesu rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror yn ystod y flwyddyn adrodd, yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg am wybodaeth ynghylch hunanasesu. Yn ystod y gweithgarwch, roedd gan y swyddfa lawer o hyder yn ei chydymffurfiaeth. Mae'r swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â |

| | | |
|---|---|---|
| | | Swyddog Hyrwyddo Cydymffurfiaeth Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella darpariaeth bresennol. |
| **5.** Ymgysylltu â chymunedau mewn digwyddiadau cyhoeddus i dynnu sylw at argaeledd gwasanaethau Cymraeg. | Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau'n deall ein bod ni'n darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a bod cyfle gyda nhw i gyfathrebu â ni yn Gymraeg. | Mynychodd SCHTh nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod 2025/2026, megis Sioe Frenhinol Cymru a Sioe Sir Benfro. Roedd staff Cymraeg eu hiaith ar gael yn y digwyddiadau, a oedd yn gyfle i dynnu sylw at y ddarpariaeth Gymraeg yn SCHTh. |
| **6.** Tynnu sylw at gyrsiau ar gyfer aelodau staff sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. | Bydd hyn yn helpu SCHTh i ddod yn sefydliad dwyieithog. | Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei drin o dan bwyntiau 1 a 3 uchod.<br><br>Yn ogystal, cafodd gwella sgiliau Cymraeg ei gynnwys fel amcan ar gyfer sawl aelod staff o fewn eu Proffil Datblygu ac Asesu ar gyfer 2025-26. |
| **7.** Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg staff drwy ffyrdd arloesol a chreadigol, gan gynnwys dathlu gwyliau a digwyddiadau diwylliannol Cymru. | Bydd dathlu digwyddiadau Cymreig traddodiadol yn rhoi mwy o wybodaeth am hanes cyfoethog Cymru i staff sydd â llai o sgiliau ac yn eu grymuso i ddysgu'r iaith a dysgu am ddiwylliant Cymru. | Cynhaliodd CHTh ei 10fed Cynhadledd Gŵyl Ddewi flynyddol i gyd-fynd â'r diwrnod symbolaidd o ddathlu Cymreig. |

Mae dwy iaith a gydnabyddir yn gyfreithiol yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith - Dau Ddewis!** Dyma lle rydym fel sefydliad yn sicrhau ein bod yn gyfreithiol yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog a bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel iaith gyfartal.

Mae aelod o dîm SCHTh yn aelod o grŵp 'Yr Iaith ar Waith', sef Grŵp Gweithredu Iaith Gymraeg yr Heddlu. Diben y grŵp yw hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg i Heddlu Dyfed-Powys a datblygu gwaith ym maes y Gymraeg ymhellach ar lefel strategol. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i rannu arferion gorau a deall unrhyw faterion y gall yr Heddlu fod yn eu hwynebu o ran y Gymraeg. Mae'n ffurfio rhan o waith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar berfformiad y Prif Gwnstabl o ran cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4. Pethau a Gyflawnwyd

### Digwyddiadau: Sioe Frenhinol Cymru

Yn ystod mis Gorffennaf 2025, aethom i Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt lle'r oeddem yn rhannu stondin gyda Heddlu Dyfed-Powys. Ystyrir Sioe Frenhinol Cymru'n un o'r cyfleoedd allweddol i'r CHTh a'r Swyddfa ymgysylltu ac ymgynghori'n uniongyrchol â'n cymunedau gwledig, a siaradwyr Cymraeg yn arbennig, i hyrwyddo gwaith y Swyddfa a rhoi cyfle iddynt godi unrhyw faterion mewn perthynas â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Fe wnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad yn ddwyieithog mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth i ddeall pryderon gwledig, a'r materion sydd fwyaf pwysig i'n cymunedau gwledig.

### Cyfathrebu

Mae ein holl gyfathrebiadau i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ein holl bostiadau cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a bwletinau misol, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

### Gwasanaethau a Gomisiynir

Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth dan gytundeb gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Caiff hyn ei brofi o fewn y broses dendro a'i sgorio yn y cam gwerthuso. Unwaith y caiff ei ddyfarnu, mae gofyniad i adrodd ar y ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o fonitro chwarterol ac mae'n cael ei gynnwys hefyd o fewn archwiliad blynyddol o wasanaethau.

## 5. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

**Safonau'r Gymraeg**

Yn 2025/2026, roedd y Swyddfa'n destun adolygiad monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'n gwefan.

Fel rhan o'r ymarfer hwn, aseswyd sampl o ddeg tudalen we. Er bod yr adolygiad wedi nodi nifer fach o broblemau, roedd y rhain yn dechnegol o ran natur yn bennaf. Roeddent yn cynnwys achosion lle'r oedd botymau 'lawrlwytho' yn ymddangos yn Saesneg ar dudalennau Cymraeg, penawdau Saesneg ar gyfer cynnwys Cymraeg, a swyddogaethau chwilio neu hidlo nad oedd ar gael yn llawn yn Gymraeg.

Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn cydnabod bod yr holl faterion hyn yn hawdd i'w trin, ac yn bwysicach na hynny, cydnabu'r gwelliannau sylweddol a wnaed ers yr adolygiad diwethaf. Nododd Comisiynydd y Gymraeg yr ymdrech a buddsoddiad sylweddol o ran datblygu gwefan sy'n gynyddol gydymffurfiol a hygyrch yn y ddwy iaith.

Darparwyd nifer o argymhellion i gryfhau cydymffurfiaeth ymhellach. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl elfennau rhyngweithiol ar gael yn Gymraeg, bod y cynnwys yn gyfartal o ran cwmpas a manylion yn y ddwy iaith, bod deunyddiau'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y ddwy iaith, a bod prosesau cadarn mewn grym i gynnal cydymffurfiaeth barhaus.

Yn dilyn yr adolygiad, aeth ein tîm TG i'r afael â'r holl faterion a nodwyd. Rydyn ni hefyd wedi cymryd camau i gryfhau ein prosesau mewnol i sicrhau bod diweddariadau a chynnwys yn y dyfodol yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn. Mae hyn yn cynnwys gwell trefniadau goruchwylio a gwiriadau mwy cyson er mwyn sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n llawn ar draws holl agweddau'n presenoldeb digidol.

## 6. Cyrsiau Cymraeg

Anogir staff yn SCHTh i ddilyn unrhyw gyrsiau Cymraeg y teimlir eu bod yn berthnasol ac yn briodol. Mae gan y staff fynediad i'r un cyrsiau sydd ar gael i swyddogion a staff yr heddlu ac maent yn amrywio o ran cymhlethdod yn dibynnu ar lefel y gofyniad.

Cytunodd arweinyddiaeth SCHTh y byddai gan bob aelod staff amcan sefydliadol yn eu Proffil Asesu Datblygiad yn 2025/2026. Yr amcan yw "Cefnogi a hyrwyddo datblygiad proffesiynol personol yn weithredol, gan gynnwys datblygu sgiliau Cymraeg, yn y gweithle drwy annog dysgu, hyder a throsglwyddo sgiliau". Cymerodd ambell aelod staff gam pellach i gynnwys datblygu sgiliau/hyder o ran defnyddio'r Gymraeg yn eu hamcanion sy'n gysylltiedig â datblygiad personol.

## 7. Gallu Iaith Gymraeg y Staff

Mae'n bwysig i weithlu SCHTh gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fel swyddfa, rydym yn falch o'n Cymreictod ac yn dymuno annog staff i gefnogi ein holl breswylwyr drwy ymgysylltu â nhw yn eu dewis iaith. Credwn ei bod yn bwysig i'n staff allu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol i'n preswylwyr ac i'n gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae SCHTh wedi ymrwymo i gael gweithlu sydd i gyd yn gallu sgwrsio yn Gymraeg ar lefel 1 o leiaf.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, o fis Ebrill 2019 mae pob proffil rôl newydd ar gyfer staff yn nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i lefel 1 neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn chwe mis i'w benodi.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/2026 cofnodwyd y lefelau canlynol o ran sgiliau iaith Gymraeg. Cofnododd pob unigolyn sgiliau lefel 1 ac uwch, gydag 14 aelod staff yn cofnodi sgiliau Cymraeg lefel 3 ac uwch.

| **Sgiliau Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Lefel 0 | 0 |
| Lefel 1 | 4 |
| Lefel 2 | 4 |
| Lefel 3 | 4 |
| Lefel 4 | 4 |
| Lefel 5 | 6 |

## 8. Llunio Polisi

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Mae SCHTh yn asesu'r effaith ar y Gymraeg pan mae newidiadau i bolisi o fewn dogfen asesu effaith. Ar hyn o bryd, mae asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn cael eu cynnwys gydag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldebau ar un ffurflen, sy'n darparu ymagwedd ymarferol ac effeithlon drwy leihau dyblygu a sicrhau y gall yr un rhanddeiliaid ystyried a chyfrannu'n rhwydd i'r ddau. Yr ydym wrthi'n barhaus yn adolygu p'un a fyddai asesiadau ar wahân yn fwy buddiol. Atgoffwyd staff am bwysigrwydd monitro'r effaith ar y Gymraeg mewn polisïau allweddol a phenderfyniadau strategol ym mis Mawrth 2026, gan gynnwys eu hatgoffa am y templed y dylid ei ddefnyddio.

Pryd bynnag mae SCHTh yn cynnal darn o waith annibynnol, mae'r swyddfa'n sicrhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg yn cael ei gynnal. Mae enghreifftiau o asesiadau blaenorol o effaith yn cynnwys:

- Y Praesept Treth Gyngor
- Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu
- Y Cynllun Heddlu a Throseddu
- Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr
- Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Polisi Penderfynu

Mae'r rhain i gyd wedi'u cyhoeddi ac maen nhw ar gael i'w darllen ar ein gwefan.

## 9. Anfodlonrwydd

Derbyniodd SCHTh un gŵyn mewn perthynas â'r Gymraeg ym mis Mawrth 2026, a dderbyniwyd drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r testun Saesneg yn cael ei osod uwchben y Gymraeg mewn e-bost ymateb awtomataidd. Mae SCHTh wedi unioni'r camgymeriad ac wedi rhoi'r camau lliniaru canlynol ar waith:

- Atgyfnerthu canllawiau i staff ar Safonau'r Gymraeg a gofynion gohebiaeth.
- Cyflwyno gwiriadau mewnol ychwanegol i fonitro cydymffurfiaeth.
- Adolygu ein templedi cyfathrebu a gweithlifoedd i wneud yn siŵr y sicrheir cydymffurfiaeth yn gyson.

Wrth baratoi'r adroddiad blynyddol hwn, nododd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd ar unwaith i ddatrys y mater, ac felly ni fyddai angen ymchwiliad.

## 10. Sgiliau Cymraeg

| Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn SCHTh | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewn swyddfa** | Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg. | Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol, ee tasgau gweinyddol syml neu dasgau arferol. | Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn ei faes gwaith ei hun a dadlau o blaid neu yn erbyn achos. | Yn gallu cyfweld ag ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am swyddi ac asesu eu haddasrwydd. |
| **Cyfarfodydd cyhoeddus / siarad â'r cyfryngau** | Yn gallu agor a chau cyfarfodydd a chroesawu cyfranogwyr yn ddwyieithog. | Yn gallu cyflwyno ei hun ac eraill yn ôl enw, rheng, rôl, a lleoliad/ sefydliad. Yn gallu cyfrannu mewn cyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. | Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, ateb cwestiynau, neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth. | Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi i'r Saesneg am dermau technegol neu blismona. | Yn gallu darparu cyflwyniadau Cymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu elyniaethus yn Gymraeg i'r graddau bod ganddo/ganddi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol. |
| **Ysgrifennu** | Yn gallu ysgrifennu cais arferol syml at gydweithiwr, megis | Yn gallu ysgrifennu nodyn cais byr at gydweithiwr neu gyswllt allanol hysbys. | Yn gallu ysgrifennu memos mewnol anffurfiol, negeseuon e-bost ac ymdrin â | Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon e-bost a phosteri ar gyfer | Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 'A gaf i … os gwelwch yn dda?' | | cheisiadau arferol. | cwsmeriaid allanol. | chywir mewn cyfarfod. |

**Gwybodaeth Bellach**

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg; anfonwch e-bost i opcc@dyfed-powys.police.uk.